YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr, 2021

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd) Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-gadeirydd) Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE Dafydd Roberts, Robin Williams.
WRTH LAW:	Uwch Swyddog Cynllunio (JR) Peiriannydd Rheoli Datblygiadau (Priffyrdd) (WIH) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr John Griffith ac Ieuan Williams
HEFYD YN BRESENNOL:	Aelod Lleol: Cynghorydd Margaret M. Roberts

---

1. **FPL/2021/136 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i fod yn llety gwyliau ynghyd â'i addasu a'i ehangu yn Wylfa, Ffordd Bangor, Benllech.**

Dangoswyd fideo i Aelodau o safle'r cais a oedd yn dangos yr adeilad allanol o dan sylw mewn perthynas ag annedd yr ymgeisydd, y fynedfa a'r ffordd yn arwain at y safle. Dangoswyd yr adeilad allanol presennol fel un oedd â tho ar oleddf ac estyniad ffrâm goed â tho gwastad ar ochr yr adeilad a thŷ allan bach â tho ar oleddf yng nghefn/ochr yr adeilad. Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Cynllunio at yr addasiadau a'r gwaith ehangu arfaethedig a'r hyn oedd yn ei olygu.

Dywedodd yr Aelod Lleol fod y cais yn cynnwys gwneud defnydd amgen o adeilad sydd angen ei drwsio a'i ailwampio a thynnodd sylw at y ffaith bod digon o le i drosi'r adeilad o fewn y gofod sydd ar gael.

Gofynnodd Aelodau am eglurhad mewn perthynas â materion yn ymwneud â mynediad, parcio a dichonoldeb strwythurol yr adeilad allanol presennol.

Cynghorydd Nicola Roberts
Cadeirydd